# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Lleol

HWLG(3)-21-09 papur 3

## Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Papur ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Mae Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC) ac Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd (DPHHP). Yr AIGC sy'n gyfrifol am reoli a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, hyrwyddo gwelliannau i'r modd y darperir gwasanaethau a phennu polisïau, strategaethau a deddfwriaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi arian i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a chyrff eraill sy'n ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol. Amcanion yr Adran yw cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un yn ogystal â Cynllun Oes, y strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer y GIG, a Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, y strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r DPHHP yn arwain ar bolisi iechyd cyhoeddus, ymchwil a datblygu a chyngor proffesiynol ar iechyd.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dangos y newidiadau canlynol i Brif Grwpiau Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2010-11:

Mae arian Refeniw wedi cynyddu £145.9 miliwn o'i gymharu â 200910. Mae hyn yn cynnwys £50.0 miliwn ar gyfer newidiadau strwythurol yn y gwasanaeth iechyd a'r cynnydd gwirioneddol yn y galw am wasanaethau yn sgil lleihau amseroedd aros, a £4.0 miliwn ar gyfer blaenoriaethau sy'n codi yn sgil y dirywiad yn yr economi;

O'i gymharu â'r cynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gafodd eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi gostwng £40.3 miliwn i £5.8 biliwn. Mae hyn yn golygu arbed £91.6 miliwn trwy wella effeithlonrwydd ymhellach 1.6%.

Mae arian Cyfalaf wedi gostwng £115.8 miliwn o'i gymharu â 200910. Mae £58.4 miliwn o'r gostyngiad hwn yn wariant cyfalaf a gafodd ei ddwyn ymlaen o 201011 i flynyddoedd ariannol cynharach er mwyn rhoi sbardun economaidd.

O'i gymharu â'r cynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb cyfalaf wedi gostwng £43.5 miliwn i £296.6 miliwn. Mae £14.3 miliwn o hwn yn ostyngiad yn sgil penderfyniadau ariannol a wnaed ar lefel y DU; ac yn adlewyrchu yn enwedig y gwariant cyfalaf a gafodd ei ddwyn ymlaen o 201011 i flynyddoedd ariannol cynharach. Bydd hyn yn golygu er enghraifft fod Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn gallu cynnal gwaith cynhwysfawr i alluogi cynlluniau'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl, yn ogystal â chynyddu'r cymorth i'r Ymddiriedolaeth iddi allu datblygu Achos Busnes Llawn cadarn a chynhwysfawr i sicrhau bod y prif gynlluniau'n symud yn gyflym o gael eu cymeradwyo i gael eu hadeiladu.

### Dyraniadau'r GIG

1. Dyma Faes y Rhaglen Wariant (SPA) mwyaf yn y MEG o bell ffordd, gyda chyllideb refeniw flynyddol o dros £5 biliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer gofal y GIG (gwasanaethau ysbytai) yn dod o'r SPA hwn, ac mae'r arian hwnnw gan mwyaf yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG. Daw'r arian ar gyfer gofal sylfaenol (Meddygon Teulu, deintyddion a fferyllwyr) hefyd o'r SPA hwn. Mae £134.494 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £10.003 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed £81.601 million trwy wella effeithlonrwydd. Cafodd £15.341 miliwn hefyd ei drosglwyddo iddo o amryw o SPAs o ganlyniad i arian i ddyraniad y Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru (CIC), trosglwyddo £0.500 miliwn rhwng SPAs ar gyfer trin canser, ailbennu £3.422 miliwn yn gyllid heb fod yn arian parod, trosglwyddo £0.665 miliwn ar gyfer y fenter Hawliau Lles i MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn ogystal ag ychwanegu cyfanswm dyraniad y MEG, sef £54.000 miliwn i'r SPA hwn.

### Datblygu Gweithlu

2. Mae rhaglenni addysg a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn gofal iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hariannu o'r SPA hwn, sydd hefyd yn cefnogi Cyngor Gofal Cymru. Mae £2.853 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £6.396 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed £4.919 miliwn trwy wella effeithlonrwydd 1.6%, ac ailbennu o £1.477 miliwn o gyllid sydd bron yn arian parod yn gyllid heb fod yn arian parod.

### Gwybodaeth

3. O'r SPA hwn y daw'r cyllid ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth a data'r holl GIG. Mae £0.083 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £0.480 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, yn sgil arbed arian trwy wella effeithlonrwydd 1.6%.

### Ansawdd a Diogelwch Cleifion

4. O'r SPA hwn y daw'r arian ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu, yn ogystal â mentrau i roi mwy o gyfle i gleifion gyfrannu ac i wella'u

profiad. Mae £8.271 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10 ond mae hwnnw'n £2.348 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed £0.779 miliwn trwy wella effeithlonrwydd 1.6%, ac ailbennu £1.569 million o gyllid sydd bron yn arian parod yn gyllid heb fod yn arian parod.

### Gofal Sylfaenol

5. Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer nifer o fentrau gofal sylfaenol eraill sy'n cael eu dal yn ganolog. Mae £0.094 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £0.271 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed arian trwy wella effeithlonrwydd 1.6%.

### Iechyd Meddwl

6. Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid sy'n cael ei ddal yn ganolog ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys gweithredu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl craidd yn cael ei neilltuo i'r GIG fel dyraniad sydd wedi'i glustnodi trwy'r Byrddau Iechyd Lleol a Llythyr Dyrannu Refeniw Comisiwn Iechyd Cymru. Mae £0.211 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £2.889 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, yn sgil trosglwyddo £2.629 miliwn i ddyraniad y Byrddau Iechyd/Comisiwn Iechyd Cymru ac arbed £0.260 miliwn trwy wella effeithlonrwydd.

### Clefydau Cronig

7. Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer tri Rhwydwaith y Galon yn ogystal â chyllid ar gyfer rheoli clefydau cronig. Mae £7.913 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £9.832 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil trosglwyddo £9.684 miliwn ar gyfer gwasanaethau arennol i ddyraniad y Byrddau Iechyd/Comisiwn Iechyd Cymru ac arbed £0.148 miliwn trwy wella effeithlonrwydd.

### Canser

8. Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y tri Rhwydwaith Canser yn ogystal â chyllid a roddir i sector gwirfoddol yr hosbisau ar gyfer gofal lliniarol. Mae £3.413 million o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £0.338 miliwn o gynnydd o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil trosglwyddo £0.500 miliwn rhwng SPAs ac arbed £0.162 miliwn trwy wella effeithlonrwydd.

### Gwasanaethau Gofal Iechyd Eraill

9. Mae'r SPA hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfraniad Cymru i Awdurdod Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ar gyfer trawsblannu organau a meinwe. Mae £2.201 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £2.326 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil trosglwyddo £2.276 miliwn ar gyfer gwasanaethau Strôc i ddyraniad y Byrddau Iechyd/Comisiwn Iechyd Cymru ac arbed £0.050 miliwn trwy wella effeithlonrwydd.

### Gwella Mynediad

10. Mae'r SPA hwn yn talu am reoli a chefnogi rhaglen amserau aros y Llywodraeth. Mae £0.020 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £0.028 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil gwella effeithlonrwydd 1.6%.

### Atal Afiechyd

11. Mae adnoddau Iechyd y Cyhoedd, gan gynnwys Her Iechyd Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chanolfan Iechyd Cymru, yn cael eu hariannu o'r SPA hwn. Mae hefyd yn cefnogi ystod o weithgareddau iechyd cyhoeddus a hyrwyddo iechyd, gan gynnwys rhaglenni brechu, rheoli tybaco a maeth mewn ysgolion, yn ogystal â gwasanaethau microbioleg. Mae £9.134 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £1.658 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed £1.282 miliwn trwy wella effeithlonrwydd 1.6% ac ailbennu £0.376 miliwn o gyllid sydd bron yn arian parod yn gyllid heb fod yn arian parod.

### Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Phobl Ifanc

12. Mae'r SPA hwn yn ariannu gwasanaethau i blant a theuluoedd yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys y gwasanaethau cyfiawnder i bobl ifanc. Mae £1.990 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £3.167 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed £0.416 miliwn trwy wella effeithlonrwydd 1.6%, trosglwyddo £2.000 miliwn i MEG Plant Agored i Niwed yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'w gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw, a £0.752 miliwn i'r Byrddau Iechyd/Comisiwn Iechyd Cymru ar gyfer Dyraniad Refeniw CAMHS.

### Gwasanaethau Pobl Hŷn

13. Dyma arian i sicrhau bod awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu'r Strategaeth Pobl Hŷn yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau cyllid ar gyfer rhedeg swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae £1.589 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a

roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10 ond mae hwnnw'n £0.039 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed arian trwy wella effeithlonrwydd 1.6%.

### Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Eraill ar gyfer Oedolion

14. Mae'r SPA hwn yn talu am wasanaethau cymunedol i oedolion, gwasanaethau gofal cartref a chymorth i ofalwyr trwy'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr. Mae £1.268 miliwn o gynnydd yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10 ond mae hwnnw'n £1.179 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed arian trwy wella effeithlonrwydd 1.6%.

### Dyraniadau (Cyfalaf) i'r GIG

15. Gan mwyaf, mae'r SPA hwn yn ariannu Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan. Mae £115.802 miliwn o ostyngiad yn y cyllid a roddir i'r SPA hwn o'i gymharu â 2009-10, ond mae hwnnw'n £43.502 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn sgil arbed £14.302 miliwn trwy wella effeithlonrwydd 4.6% a dwyn £29.200 miliwn o wariant cyfalaf ymlaen o 2010-11 i flynyddoedd ariannol cynharach.